2024
2026


















# YSGOL PANT PASTYNOG

Parchu Pawb a Phopeth


















# Prosbectws
## *Prospectus*



# Staff Yr Ysgol
# *School Staff*

Pennaeth ac Athro / Headteacher and Teacher (Bl.5 a 6)
**Meirion Edwards**

Athrawes / Teacher (Bl.5 a 6)
**Mrs Mali Williams**

Athrawes / Teacher (Bl.3 a 4)
**Mrs Teleri Roberts**

Athrawes / Teacher Cyfnod Sylfaen / Foundation Phase
**Miss Lois Lightfoot**

Athrawes / Teacher (Bl.3 a 4)
**Mrs Helen Davies**

Cymhorthyddion Dosbarth / Classroom Assistants
**Miss Elin**
**Anti Sian**
**Miss Celi Evans**

Ysgrifenyddes / Secretary
**Mrs Gwenan Roberts**

Cogyddes / Cook
**Mrs Gwenan Roberts**

Gofalwr / Caretaker
**Mr David Jones**

# Llywodraethwyr
# *Governors*

Cadeirydd / *Chairperson*
**Mrs Meryl Pierce**

Is-gadeirydd / *Vice Chairperson*
**Mrs Iona Jones**

Clerc / *Clerk*
**Mrs Gwenan Roberts**

Llywodraethwyr AALl / LEA Governors
**Mrs Meryl Pierce**
**Mrs Iona Jones**

Llywodraethwr Cymunedol / *Community Governor*
**Mrs Rhian Jones**
**Mr Robert Davies**

Rhiant Lywodraethwyr / *Parent Governors*
**Mr Huw Davies**
**Mrs Ceri Davies**
**Mrs Llinos Anderson**

Llywodraethwyr Sylfaen / *Foundation Governors*
**Mr Philip Williams**
**Parchedig Martin Pritchard**

Staff
**Mr Meirion Edwards, Miss Lois Lightfoot, Anti Sian.**

Welsh Network of Healthy School Schemes
Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

Eco-Schools
Eco-Sgolion

The Basic Skills Agency
QUALITY MARK

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Annwyl Rieni,

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Prosbectws Ysgol Pant Pastynog i chi. Cewch ynddo fanylion am yr ysgol – ei hamcanion a'i threfniadau.

Rydym yn ymfalchïo fod gennym ysgol hapus a chartrefol lle caiff pob unigolyn ei barchu a'i drin yn gydradd. O fewn yr awyrgylch braf yma rydym yn cynnig addysg gyflawn ac eang i'n plant gan roi cyfleoedd iddynt dyfu'n oedolion cyfrifol a hyderus yn eu cymuned.

Ysgol naturiol Gymraeg ydi'r ysgol gan fod y mwyafrif o'r plant yn dod o gartrefi Cymraeg. Cymraeg yw prif iaith y dysgu hefyd ac ymdrechwn i gael pob plentyn yn gwbl ddwyieithog erbyn y byddant yn gadael am yr ysgol uwchradd.

Rwy'n siŵr y bydd eich plentyn/plant yn hapus yma ac y cawn flynyddoedd o gydweithio hapus gyda'n gilydd.

Os hoffech drefnu i ymweld âr ysgol, yna ffoniwch gan ofyn am Mr Meirion Edwards neu Mrs Gwenan Roberts (ysgrifenyddes) os gwelwch yn dda.

*Dear Parents,*

*It gives me great pleasure to present Ysgol Pant Pastynog's Prospectus to you. You will find in it relevant details about the school – its aims and its organisation.*

*We are proud of our happy and homely school where each individual is respected and treated equally. Within this atmosphere we offer a wide and comprehensive education giving our children opportunities to develop into re-sponsible and confident members of their community.*

*This is a natural Welsh School as most of our children come from homes where Welsh is spoken. Welsh is the main language used for teaching and our aim is for every child to be bilingual by the time they leave for high school.*

*I'm sure that your child/children will be happy here and that we can work together happily for many years.*

*If you would like to arrange to view the school, please phone and ask for Mr Meirion Edwards or Mrs Gwenan Roberts (Secretary).*

Meirion Edwards

**Meirion Edwards**
Pennaeth / *Head teacher*



# Darpariaeth Cyn-Ysgol
# *Pre-School Provision*

**Arweinydd Cylch Meithrin / Leader – Anti Sian**
**Cynorthwydd / Assistant – Miss Glenda Jones**

Mae'r Cylch Meithrin yn cael ei redeg yng Nghaban y Plwyf (sydd ar dir yr ysgol) bob prynhawn rhwng 11:30yb a 2:55yp. Gall plant sydd yn mynychu dosbarth Meithrin (ysgol yn y bore yn unig) aros i gael cinio, ac yna i'r Cylch Meithrin Mwy yn y prynhawn. Gall plant o ddwy a hanner ddod i'r Cylch erbyn 11:30yb a chael cinio ysgol ac yna aros am weddill y prynhawn. Rydym hefyd yn rhan o gynllun 'Godi'n dair'. Golyga hyn y gall plentyn sydd yn cael ei ben-blwydd yn dair oed ym mis Hydref fynychu'r ysgol dechrau tymor y Gwanwyn, neu os oes plentyn yn cael ei ben-blwydd mis Chwefror, gall fynychu'r ysgol ar ôl y Pasg. Golyga hyn y gall plentyn fynychu'r ysgol yn gynt, yn hytrach na disgwyl tan y mis Medi canlynol.

*The Cylch Meithrin is run in the Cabin (located on the school grounds) every afternoon between 11:30am and 2:55pm. Children attending our Nursery class (school in the morning only) can stay for lunch, and then go to the Meithrin Mwy in the afternoon. Children of two and a half can come to the Cylch by 11:30am and have a school lunch and stay for the rest of the afternoon. We are also part of the 'Raise three' scheme. This means that a child who has their third birthday in October can attend school at the start of the Spring term, or if a child has their birthday in February, they can attend school after Easter. This means that a child can attend school sooner, rather than waiting until the following September.*









## Cylch Ti a Fi - *Parent and Toddler Group*

**Bob bore dydd Gwener**
**yng Nghaban Y Plwyf, 10yb - 11.30yb**

***Every Friday morning***
***in Caban Y Plwyf, 10am - 11.30am.***

Cyswllt / *Contact:* **Anti Sian, 01745 890331**

Paned / Cuppa
Sgwrs / Chat
Crefft / Craft

# Gofal Cofleidiol
# *Wrap Around Care*







**Clwb Brecwast - *Breakfast Club***
**Staff - Miss Elin a Mr David Jones**

Bob bore rhwng 8.00yb a 8.35yb. Mae brecwast iachus yn cael ei weini, yn cynnwys tôst, grawnfwydydd, sudd ffrwythau a iogwrt. Cysylltwch â'r ysgol am wybodaeth pellach o.g.y.dd

*Every morning between 8.00am and 8.35am. A healthy breakfast is served, including toast, cereals, fruit juice and yoghurt. Please contact the school for further information*



**Clwb Sêr** (Clwb ar ôl ysgol / *After school club)*
Arweinydd / Leader - Miss Elin
Cymorthyddion/Assistants - Miss Celi a Miss Mali.

Bob prynhawn rhwng 3yp a 5.30yp yng Nghaban Y Plwyf . Cysylltwch â'r ysgol am wybodaeth pellach o.g.y.dd

*Every afternoon between 3pm and 5.30pm in Caban Y Plwyf. Please contact the school for further infor-mation*






# Ein Ysgol / *Our School*

Mae Ysgol Pant Pastynog yn gwasanaethu pentrefi Prion, Peniel, Saron, Nantglyn a'r ardal wledig o'i chwmpas yn ogystal a thref Dinbych.

Ysgol naturiol Gymraeg ydi hi a Chymraeg yw iaith gyntaf y mwyafrif o'r disgyblion. Cyflwynir Saesneg fel pwnc i'r plant ym mlwyddyn 3.

Mae'n ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Yn 1864, gadawodd Peter Jones ddarn o dir yn ei ew-yllys i'r diben o godi ysgol ym Mhrion i blant a phobl dlawd y plwyf. Ers hynny adeiladwyd ystafell ychwanegol yn 1890 a chantîn yn 1960.

Ceir tair ystafell dosbarth - un i blant Cyfnod Sylfaen, un i blant Bl 3 a 4 a'r llall i Fl5 a 6.

Defnyddir Neuadd yr ysgol ar gyfer gweithgareddau megis grwpiau targedu, gwersi offerynnau, cyd-addoli, addysg gorfforol ac fel ffreutur amser cinio.

*Ysgol Pant Pastynog serves the villages of Prion, Peniel, Saron, Nantglyn and the rural area surrounding it as well as the town of Denbigh.*

*It's a natural Welsh School – and Welsh is the first language of the majority of the pupils. English is introduced to the children in year 3.*

*It is a Church of Wales voluntary controlled school. In 1864, Peter Jones left a plot of land in his will with the intent of building a school in Prion for the children and the poor of the parish. Since then, an extra room was built in 1890 and a canteen in 1960.*

*There are three classrooms – one for Foundation Phase children, one for Yrs 3 and 4 and another for Yrs 5 and 6.*

*The school Hall is used for activities such as targeting groups, instrument lessons, co-worship, physical education and is used as a canteen at lunch time.*






# Nôd ac Amcanion

**NOD**

Ein prif amcan yn Ysgol Pant Pastynog yw creu amgylchedd lle caiff pob plentyn ddatblygu fel unigolyn o ran ei ddatblygiad personol a'i gyrhaeddiad academaidd er mwyn tyfu'n berson cyfrifol a hyderus yn ei gymuned.

**AMCANION**

- Rydym yn paratoi'r disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, yn unigolion iach a hyderus yn ogystal ag yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus.
- Ceisiwn greu amgylchedd sy'n hybu: tyfiant personol iach; datblygiad corfforol a meddyliol; datblygiad esthetig, cymdeithasol, ysbrydol, deallusol a moesol.
- Darparwn ar gyfer ein disgyblion safonau dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf sy'n eu hysgogi ac yn eu cymell i fod yn frwdfrydig ac yn eiddgar i ddysgu.
- Ceisiwn ddatblygu hunan hyder a hunan ddisgyblaeth yn y plant gan feithrin goddefgarwch a pharch tuag at eraill gan eu hannog i feithrin gwerthoedd moesol personol.
- Anelwn i ddatblygu sgiliau ieithyddol y plant yn y Gymraeg a'r Saesneg fel eu bod yn gwbl ddwyieithog ac yn gyfathrebwyr hyderus yn y ddwy iaith erbyn iddynt adael yr ysgol.
- Anogwn gydweithio effeithiol rhwng y disgyblion â'i gilydd a rhwng disgyblion â staff a hynny'n seiliedig ar barch a gofal.
- Darparwn gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu doniau creadigol a'u diddordebau gan eu hannog i fod yn ymwybodol o'u cryfderau a sut i wella eu perfformiad.
- Rhown gyfle i'r disgyblion ddatblygu sgiliau meddwl chwim, sgiliau datrys problemau, sgiliau canfod gwybodaeth a sgiliau TGCh wrth gyflwyno cwricwlwm eang llawn iddynt.
- Anelwn i greu amgylchedd ddiddorol a chwaethus sy'n rhoi cyfle i bob unigolyn ddatblygu hyd eithaf ei allu.

# *Aims and Objectives*

***AIM***

*Our main aim in Ysgol Pant Pastynog is to create an environment where every child can develop as an individual in his/her personal development and academic achievement so that he/she grows up to be a responsible and confident person in his/her community.*

***OBJECTIVES***

- *We aim to create an environment that promotes: healthy personal growth; physical and mental development; aesthetic, social, spiritual, intellectual and moral development.*
- *We provide for our pupils the highest standard of teaching and learning that stimulates and encourages the pupils to be eager and keen to learn.*
- *We try to develop the self confident and self discipline in the children nurturing in them tolerance and respect towards each other and thus encouraging them to nurture personal moral values.*
- *We aim to develop their linguistic skills in Welsh and English so that they become completely bilingual and be-come confident communicators in both languages by the time they leave the school.*
- *We promote effective co-operation between pupils and between pupils and staff based on respect and care.*
- *We provide opportunities for the pupils to develop their creative talents and interests and encourage them to recognise their strengths and to know how to improve their performance.*
- *We give our children the opportunity to develop quick thinking skills, problem-solving skills, information seeking skills and ICT skills by providing them with a full and broad curriculum.*
- *We aim to create an interesting and tasteful environment which gives every individual a chance to develop to the best of his/her ability.*


















# Ethos Yr Ysgol
## *School Ethos*

Anelwn at gael ysgol deuluol hapus lle gall pob unigolyn gyrraedd ei botensial llawn er mwyn tyfu'n aelod gwerthfawr a chyfrifol yn ei gymuned a'r gymdeithas ehangach.

Ceir ethos hapus a diogel wrth i'r plant ddangos gofal, ystyriaeth a pharch tuag atynt eu hunain, eu cyd-ddisgyblion, y staff a holl gymuned yr ysgol.

Ysgol dan reolaeth yr Eglwys yng Nghymru ydi Ysgol Pant Pastynog a cheir ethos Gristnogol ynddi gan ei bod yn hyrwyddo gwerthoedd Cristnogol.

Cynhelir amryw o Glybiau ar ôl ysgol ac mae'r ysgol yn cystadlu'n flynyddol yn Eisteddfod yr Urdd.

We aim to have a happy family school where every individual can reach his/her full potential, so that they can grow into valuable and responsible members of the community and the wider society.

A happy and safe ethos is created as pupils show care, consideration and respect towards themselves, their fellow pupils, staff and the school community.

Ysgol Pant Pastynog is a Voluntary Controlled School of the Church of Wales and a Christian ethos is maintained by promoting Christian values.

We have a variety of After School Clubs and the school competes annually in the Urdd Eisteddfod.

# Disgyblaeth
## *Discipline*

Ein hamcan yn yr ysgol yw datblygu ymdeimlad o hunan-ddisgyblaeth yn ein disgyblion am eu gweithredoedd. Fe wneir hyn mewn awyrgylch addas, lle mae parchu'r unigolyn a pharchu'r amgylchedd yn bwysig. Gwobrwyo yw'r ffordd mwyaf effeithiol o reoli ymddygiad, ond rydym yn dilyn 'Polisi Disgyblu yr Ysgol lle mae'n nodi canlyniadau ymddygiad annerbynniol. Gwerthfawrogwn gefnogaeth y rhieni yn hyn o beth.

*Our aim in school is to develop a sense of self-discipline in our pupils together with responsibility for their actions. This is done in a fitting atmosphere where respect for the individual and respect for the environment are important. Reward is the most effective way of managing behaviour, but we do follow our School Discipline Policy where there are consequences for our actions. We value the support of parents in this matter.*






# Cinio Ysgol
## *School Dinner*

Mae cinio ysgol da iawn yn cael ei goginio yma bob dydd. Rydym yn dilyn bwydlen gan Sir Ddinbych gweler y linc - **https://denbighshireschoolmeals.co.uk/cymraeg/**

Yn ychwanegol rydym yn cynnig ffrwyth i'r plant fwyta amser chwarae, gofynnwn am gyfraniad o £1 i blant Cyfnod Sylfaen, a £1.25 i blant Bl 3 i 6. Gellir talu am hyn drwy Parent Pay.

*A very good school dinner is prepared here every day. We follow Denbighshire school meals menu see link* ***https://denbighshireschoolmeals.co.uk***

*We also provide fruit for the children to eat at playtime and kindly ask for a contribution of £1 per week for Foundation Phase Children and £1.25 for children in Yr 3 to 6. This can be paid via Parentpay.*





# Gwisg Ysgol
*School Uniform*

Disgwyliwn i bob disgybl wisgo gwisg ysgol. Polisi'r ysgol yw gwneud y wisg ysgol mor rhesymol ac ymarferol â phosibl. Gellir archebu'r wisg drwy'r ysgol, bydd archebion yn cael eu gwneud unwaith y flwyddyn ym mis Mai/Mehefin ond gallwch brynu eitemau yn Workplace Worksafe, Rhuthun unrhyw adeg o'r flwyddyn.

*We expect every pupil to wear school uniform. The school policy is to make the uniform as reasonable and practical as possible. Uniform can be ordered through the school, an order is done once a year in May/June time but items can be purchased in Workplace Worksafe, Ruthin at any time of the year.*

- Crys chwys yr ysgol / *School sweatshirt*
- Crys T yr ysgol neu crys T gwyn plaen / *school T shirt or plain white polo shirt*
- Trowsus neu sgert las tywyll wedi ei teilwra / *tailored navy trousers or skirt*
- Esgidiau duon os gwelwch yn dda / *Black shoes please*
- Yn yr haf, gellir gwisgo ffrog haf las a gwyn a gellir gwisgo shorts glas tywyll. / *In the Summer, they may wear a blue and white summer dress and navy shorts.*
- Ar ddyddiau addysg gorfforol caniateir i'r disgyblion ddod i'r Ysgol yn eu gwisg ymarfer corff. / *On physical education days the pupils are allowed to come to school in their sports kit.*



# TGCh / *ITC*

Gan fod gennyn ni adnoddau TGCh ardderchog, rydym yn annog ein plant i ddatblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm. Drwy defnyddio iPads, gliniaduron, chromebooks ac amrywiaeth o apiau rydym yn cyfoethogi addysg a phrofiadau'r plant.

*As we have excellent IT resources, we encourage our children to develop their IT skills across the curriculum. Through the use of iPads, laptops, chromebooks and a variety of apps we enrich the children's education and experiences.*



# Cart Y Plwyf / *Minibus*

Rydym yn ffodus iawn bod gan yr ysgol Fws Mini. Dyma adnodd gwerthfawr iawn nid yn unig i'r Ysgol ond hefyd i'r Gymuned. Defnyddiwn y bws yn rheolaidd i fynd a'r plant am wersi nofio, cystadleuthau chwaraeon ac ymweliadau addysgiadol ar hyd y flwyddyn.

*We are very fortunate that the school has a Mini Bus. This is a very valuable resource not only for the School but also for the Community. We regularly use the bus to take the children for swimming lessons, sports competitions and educational visits during the year.*

Rydym yn defnyddio'r bws mini ar gyfer y canlynol er engraifft: *We used the minibus on the following occasions: to name a few:*

- Llyfrgell Dinbych / *Denbigh Library*
- Jambori /*Jamboree*
- Pafiliwn y Rhyl *Pavillion*
- Theatr Clwyd
- Llyn Brenig
- Canolfan Arddio / *Garden Center*
- Canolfan Greft / *Craft Center*



# Cwricwlwm

Ers Medi 2022, mae'r ysgol wedi mabwysiadu Cwricwlwm newydd sydd wedi ei gynllunio i wireddu'r Pedwar diben sef, datblygu eich plentyn/plant i fod yn:-

- ddysgwr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes,
- yn gyfrannwr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinesydd egwyddorol, gwybodus, sy'n barod i chwarae rhan yng Nghymru a'r byd, ac
- unigolyn iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelod gwerthfawr o gymdeithas.

Yma yn Ysgol Pant Pastynog, bydd eich plentyn yn dysgu drwy'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad sef - Celfyddydau mynegiannol, Iechyd a lles, Dyniaethau, Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu,Mathemateg a rhifedd a Gwyddoniaeth a thechnoleg (gan gynnwys cyfrifiadureg).

Yng nghlwm i'r chwe Maes Dysgu byddent yn dysgu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r cwricwlwm hefyd yn ymdrin â:

- hawliau dynol
- amrywiaeth a pharchu gwahaniaethau
- profiadau a sgiliau ar gyfer gyrfaoedd a'r gweithle
- dysgu am gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- addysg cydberthnasoedd a rhywioldeb sy'n briodol o ran datblygiad y plentyn.

Mae pob maes dysgu a phrofiad yn cynnwys atganiadau o'r hyn sy'n bwysig sy'n llywio dysgu plant o bob oed. Mae'r rhain yn helpu eich plentyn i feddwl am yr hyn y mae'n ei ddysgu a sut mae pynciau'n cysylltu gyda'i gilydd, gyda gwaith a gyda bywyd. Maen nhw hefyd yn helpu plant i wneud cynnydd bob blwyddyn wrth iddyn nhw feithrin eu sgiliau a dealltwriaeth.

Mae'r athrawon yn cynllunio yn ôl y datganiadau o'r hyn sydd yn bwysig ymhob Maes Dysgu a Phrofiad. Yn y Cyfnod Sylfaen, rhown gyfle i'r plant ddysgu drwy chwarae yn y gwahanol ardaloedd dysgu: ardal iaith, ymchwiliol, rhif, adeiladu, TGCH, ardal tu allan ac ardal creadigol. Addysgir yn gyfan gwbl drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Yng Nghyfnod Allweddol 2, er mai Cymraeg yw'r brif iaith addysgu, cyflwynir Saesneg a defnyddir hwn wrth gasglu a chyflwyno gwybodaeth oddi fewn yr holl Meysydd Dysgu.

Gwnawn ein gorau i baratoi rhaglen o waith sy'n addas ar gyfer pob gallu a chyrhaeddiad gan anelu i sicrhau cysondeb, cynnydd a dilyniant ymhob agwedd o'r cwricwlwm. Gwneir hyn o fewn awyrgylch hapus a chadarnhaol sy'n hybu'r dysgu. Caiff y plant eu hannog i ddatblygu hunanhyder ac annibyniaeth wrth ddysgu sgiliau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Gosodi Gwaith Cartref yn achlysurol i ategu'r gwaith sy'n digwydd yn y dosbarth. Gofynnwn yn garedig i'r plant ddarllen yn rheolaidd gartref os gwelwch yn dda.





# Curriculum

*From September 2022, Ysgol Pant Pastynog has adopted the New Curriculum for Wales. The new curriculum is designed to realise the Four purposes of developing your child/children to become:-*

- *an ambitious, capable learner, who is ready to learn throughout their life,*
- *an enterprising, creative contributor, who is ready to play a full part in life and work*
- *a principled, informed citizen, who is ready to play a role in Wales and the world, and*
- *a healthy, confident individual, who is ready to live a full life as a valuable member of society.*

*Here at Ysgol Pant Pastynog, your child will learn through the six Areas of Learning and Experience namely - Expressive Arts, Health and well-being, Humanities, Languages, literacy and communication, Mathematics and numeracy and Science and technology (including computer science).*

*Linked to the six Learning Areas they would learn literacy, numeracy and digital skills across the curriculum. The curriculum also covers:*

- *human rights*
- *diversity and respect for differences*
- *experiences and skills for careers and the workplace*
- *learn about local, national and international contexts*
- *Relationships and Sexuality Education, which is appropriate in terms of the child's development.*

*Each area of learning and experience includes statements of what is important that guides the learning of children of all ages. These help your child to think about what they are learning and how subjects connect with each other, with work and with life. They also help children make progress each year as they build their skills and understanding.*

*The teachers plan according to the What matter's statements in each Area of Learning and Experience. In the Foundation Phase, we give the children the opportunity to learn through play in the different learning areas: language area, investigative, number, construction, ICT, outside area and creative area. It is taught entirely through the medium of the Welsh language. In Key Stage 2, although Welsh is the main teaching language, English is introduced and this is used when collecting and presenting information within all the Areas of Learning.*

*We do our best to prepare a scheme of work that is suitable for all abilities and attainments aiming to ensure consistency, progress and progression in every aspect of the curriculum. This is done within a happy and positive atmosphere which promotes learning. The children are encouraged to develop self-confidence and independence while learning skills in a variety of situations.*

*Homework is set occasionally, to complement the work going on in class. We kindly ask that the children read regularly at home please.*





# Ymdrin a Chwynion
# *Complaints*

Os oes gennych gwyn neu fater sy'n peri pryder i chi ynglŷn â'r ysgol , gofynnir i chi gysylltu â'r Pennaeth ar un-waith os gwelwch yn dda. Os oes gennych gwyn neu achos o bryder yn ymwneud â'r Pennaeth, yna cysylltwch gyda Cadeirydd y Llywodraethwyr.

**Hoffai'r Corff Llywodraethol atgoffa'r rhieni fod hawl ganddynt i weld unrhyw rai o'r canlynol:**

- Dogfennau Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â swyddogaeth y Llywodraethwyr;
- Manylion Cwricwlaidd
- 'Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant' neu unrhyw un o bolisïau'r ysgol
- Adroddiadau ar yr ysgol gyhoeddwyd gan Estyn.

Cewch ofyn i'r Pennaeth neu Gadeirydd y Llywodraethwyr am arweiniad ar y camau priodol i'w gymeryd os am wneud cwyn.



*If you have a complaint or are concerned about any aspect of school life, could you please contact the Head teacher immediately. If you have a complaint or concern against the Headteacher, then please contact the Chair of Governors.*

***The Governors would like to remind parents that they have the right to see the following:***

- *Assembly Government documents regarding the role of the Governors;*
- *Curriculum details;*
- *'Safeguarding and Child Protection Policy' or any of the school policies;*
- *Reports about the school published by Estyn*

*You can ask the Headteacher or Chair of Governors for guidance on the appropriate steps to take if you want to make a complaint.*

# Iechyd a Diogelwch
# *Health and Safety*

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch ar gael yn yr ysgol i unrhyw un sy'n dymuno ei weld. Mae'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am ei weithredu.

*Health and Safety policy is available at the school for anyone who wishes to see it. The head teacher and the Governing Body are responsible for its implementation*

# Salwch
# *Illness*

Mae gan yr ysgol bolisi salwch. Mae'n bwysig cadw plentyn adre am 48 awr ar ôl iddynt fod yn sâl ddiwethaf os ydynt wedi bod yn taflu i fyny, neu y tro olaf iddynt gael dolur rhydd. Os yw eich plentyn yn sâl mae'n bwysig eich bod yn ffonio'r ysgol cyn 8.45 y bore. Mae'n bosib i'r staff roi ffisig i'ch plentyn os ydynt wedi cael presgriptiwn gan y doctor, ond bydd angen i'r rhiant lenwi ffurflen caniatâd.

*The school has a sickness policy. It is important that any child that has been vomiting be kept at home for 48 hours after the last time they were sick or had a bout of diarrhoea. If a child is ill the parent must phone the school be-fore 8.45am that day. It is possible for staff to give medication to children but the parent must complete a permis-sion form beforehand.*

# Cyfleusterau
# *Facilities*

Mae toiledau a sinciau ar gael i'r plant eu defnyddio ac mae rhain yn cael eu glanhau bob dydd.

*There are toilets and sinks available for the children to use and they are cleaned every day.*

# Polisiau

## Polisi Derbyn

Dilynir y Polisi Derbyn a weithredir gan yr Awdurdod Lleol.

## Codi'n Dair – Addysg Gynnar

Mae Ysgol Pant Pastynog wedi ymuno a chynllun Codi'n Dair. Golyga hyn, os oes ganddoch chi blentyn sy'n dathlu ei ph/ben-blwydd yn dair oed, byddwch yn gallu gyrru eich plentyn i fynychu'r ysgol y tymor canlynol. Gallant ddod i'r ysgol am bump bore'r wythnos. Gellir trefnu derbyn plentyn i ddosbarthiadau hŷn ar unrhyw adeg. Os am ragor o wybodaeth, cofiwch gysylltu gyda'r ysgol.

## Darpar Rieni

Mae croeso i ddarpar rieni ymweld â'r ysgol i gyfarfod â'r Pennaeth ac i brofi awyrgylch yr ysgol ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgol i drefnu dyddiad ac amser.

## Polisi Codi Tâl

Seilir Polisi Codi Tâl yr ysgol ar ganllawiau Awdurdod Addysg Sir Ddinbych. Cyfraniadau gwirfoddol ydi pob cyfraniad gan rieni.

- Penderfynodd y Corff Llywodraethol i godi tâl am wersi offerynnol.
- Gofynnir am gyfraniad tuag at deithiau addysgol a chostau teithio gwersi nofio, a hysbysir rhieni ymlaen llaw am hyn
- Gall y Corff Llywodraethol ofyn am dâl am unrhyw ddifrod a wneir i eiddo'r ysgol sy'n deillio o gamymddygiad disgybl.
- Yn unol â pholisi'r Awdurdod Addysg Lleol, ceisia'r llywodraethwyr roi ad-daliad llawn os yw'r rhieni'n derbyn Cymorth Teulu neu Gredyd Teulu.

# *Policies*

## *Admissions Policy*

*The school conforms with the LEA Admission Policy.*

## *Raising Three - Early Education*

*Ysgol Pant Pastynog has joined the Rising three's scheme. This means that if you have a child who will be three years old, he/she can now attend school the following term. They can come to school every morning. Admission for older classes can be arranged at any time. If you would like more information, please contact the school.*

## *Prospective Parents*

*Prospective parents are invited to visit the school to meet the head teacher and to sample the working atmosphere of the school at any time during the year. Contact the school to arrange a date and time.*

## *Charging Policy*

*The Charging Policy is based on the guidelines of Denbighshire Education Authority. Every parental contribution is voluntary.*

- *The Governing Body have decided to charge for instrumental lessons.*
- *We ask for a contribution towards an educational visit and transport costs for swimming lessons and parents are given notice of this in advance.*
- *The Governing Body can charge for any damage to school property arising from misbehaviour by a pupil.*
- *In accordance with the policy of the LEA, the Governors will aim to refund if the parents are in receipt of Family Income Support or Family Tax Credit.*






# Iechyd a Lles

Fel rhan o'u gwersi Addysg Gorfforol, bydd y plant ieuengaf yn ymarfer tri maes: gemau, gweithgareddau gymnasteg a dawns. Bydd plant o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 yn derbyn gwersi nofio am gyfnod o 6 wythnos. Yn CA2 yn ychwanegol at hyn, bydd y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau athletaidd, awyr agored, tenis, rownderi a gwahanol gystadlaethau drwy'r Urdd a Dyffryn Clwyd. Rydym hefyd yn annog fod y plant i ddeall pwysigrwydd yfed digon o ddŵr, bwyta'n iach ac edrych ar ôl eu hiechyd corfforol a meddyliol.

Yn y gwersi Addysg Gorfforol, disgwylir i'r plant wisgo crys T gwyn, siorts du ac esgidiau addas. Rydym yn annog y plant i ymgymryd hyd eithaf eu gallu â'r holl weithgareddau addysg gorfforol. Cyn i bob plentyn adael yr ysgol ym Mlwyddyn 6, rydym yn sicrhau ei bod wedi cael gwersi beicio ac yn gallu nofio 25m heb gymorth.

Rydym yn cael 'Wythnos Iechyd, Lles a Ffitrwydd' a diwrnodau lles sy'n llawn gweithgareddau megis gweithgareddau coginio, awyr agored, a gweithgareddau tîm.

**Yn ystod y flwyddyn caiff y plant gyfle i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau**: Mabolgampau'r Ysgol, Pêl droed yr Urdd, Rygbi'r Urdd, Pêl Rwyd yr Urdd ac Athletau'r Urdd yn ogystal â gwyliau Dyffryn Clwyd fel Hoci, Rownderi, Trawsgwlad a Chriced.

# *Health and Wellbeing*

*As part of their Physical Education lessons, the youngest children will practice three areas: games, gymnastic activities and dance. Children from Year 1 to Year 6 will receive swimming lessons for a period of 6 weeks. In KS2 in addition to this, the children will take part in athletic activities, outdoors, tennis, rounders and various competitions through the Urdd and Vale of Clwyd. We also encourage the children to understand the importance of drinking enough water, eating healthily and looking after their physical and mental health.*

*In the Physical Education lessons, the children are expected to wear a white T-shirt, black shorts and suitable shoes. We encourage the children to undertake to the best of their ability all physical education activities. Before each child leaves school in Year 6, we ensure that she has had cycling lessons and can swim 25m unaided.*

*We have 'Health, Wellbeing and Fitness Week' and wellness days which are full of activities such as cooking, outdoor activities and team activities.*

***During the year the children have the opportunity to take part in various activities**: School Sports, Urdd Football, Urdd Rugby, Urdd Netball and Urdd Athletics and Vale of Clwyd Festivals such as Hockey, Rounders, Cross Country and Cricket.*







# Presenoldeb *Attendance*

**Mae presenoldeb yn dda iawn yn Ysgol Pant Pastynog.**

Pan fo plentyn yn absennol, disgwylir i rieni gysylltu â'r ysgol mor fuan ag sy'n bosibl i egluro'r absenoldeb – un ai drwy ffonio'r ysgol neu drwy yrru e-bost. Os nad oes eglurhad, yna bydd yr ysgol yn cysylltu gyda'r rhiant oherwydd gweithdrefnau diogelu. Presenoldeb yr ysgol gyfan ar 01/07/24 oedd 94.5%.

***Attendance is very good in Ysgol Pant Pastynog.***

*When a child is absent, we expect the parents to contact school as soon as possible – either by phone or by sending an email. If there is no explanation, then the school will contact the parent, in line with safeguarding procedures. Whole school attendance as at 01/07/24 was 94.5%.*





















# Cysylltiadau Cymunedol
# *Community Links*

## Rhieni ac Athrawon
## *Parents and Teachers*

Mae perthynas glos iawn gan yr ysgol efo'r rhieni a'r gymuned leol. Ceir cyfarfodydd tymhorol i drefnu gweithgareddau cymdeithasol ac er mwyn codi arian. Mae'r arian a godir yn werthfawr tu hwnt i'r ysgol.

Esiamplau o ddigwyddiadau yw: Ffair Hydref, Noson paned a chacen, Barbeciw Haf, Disgo/Noson Ffilm i'r plant. Gwahoddir y gymuned i holl nosweithiau cymdeithasol yr ysgol, ac mae neuadd yr ysgol o dan ei sang bob tro!

*The school has a very close link with the parents and the local community. Meetings are held every term to organise social and fund-raising events. The money raised is very important to the school.*

*Examples of events are: Winter Fair, Tea & Cake Evening, Summer Barbecue, Disco/Film night for the children. The community is invited to all social evenings at the school, and the school hall is always full.*














## Nosweithiau Rhieni
## *Parents Evenings*

Nosweithiau Rhieni - Parents Evenings
Mae cyfle i rieni drafod gwaith eu plant efo'r athrawon yn dymhorol mewn nosweithiau rhieni.

*Parents have a chance to discuss their children's work with the teachers every term.*







Pwyllgor Eglwys
Church Committee







# Cyswllt Gyda'r Eglwys

# *Contact with The Church*

Mae gan yr ysgol gyswllt agos gyda'r Eglwys Gadeiriol yn Llanelwy. Yn dymhorol bydd Mr Neil Roberts, ein Hymwelydd Esgob yn galw draw i gynnal gwasanaeth a thrafod gyda'r staff a phlant.

Mae ganddom Bwyllgor Eglwys o dan ogwydd Lles yr ysgol, sydd yn cynnal gwasanaethau ac yn trefnu gweithgareddau ar gyfer y gymuned. Eleni bu iddynt benderfynu codi arian a chasglu bwyd tuag at Fanc Bwyd Dinbych.

*The school has a close link with the Cathedral in St Asaph. Mr Neil Roberts, our Bishop Visitor will visit us every term to hold a service and discuss with the staff and children.*

*We have a Church Committee under the school's Wellbeing focus, which holds services and organizes activities for the community. This year they decided to raise money and collect food for Denbigh Food Bank.*







# Gweithgareddau Darllen

Rydym yn awyddus i'r plant fod yn ddarllenwyr rhugl. I annog hyn, yn flynyddol rydym yn dathlu Diwrnod y Llyfr gyda disgyblion yr ysgol yn gwisgo i fyny fel eu hoff cymeriadau. Mae darllen yn agor y drws i bob dim. Byddwn yn annog y plant i ddarllen yn gyson ac yn annog y rhieni i wrando ar eu plant a chwestiynnu eu dealltwriaeth.

# *Reading Activities*

We want our children to be fluent readers. To encourage this, on an annual basis we celebrate World Book Day with the school pupils having the opportunity to dress up as their favourite characters. Reading opens the door to a range of opportunities. We encourage the children to read regulary and ask parents to listen to them often, and question them for their understanding.






Yn flynyddol, mae plant Bl 3 a 4 a Bl 5 a 6, yn cystadlu yng Nghystadleuaeth y Cwis Llyfrau Cymraeg.

Children in Years 3 & 4, and 5 & 6 competed in the Welsh Book Quiz every year.

## Cwis Llyfrau

## Book Quiz









# Llais Y Plentyn
## *Pupil's Voice*

Mae'r Cyngor Ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd, ac yn weithgar iawn yn trefnu digwyddiadau amrywiol ar gyfer plant yr ysgol megis diwrnod gwisgo dillad eu hunain, noson ffilm a trefnu diwrnod codi arian i elusen Plant Mewn Angen.

*The School Council meet regularly and arrange many activities for the children of the school such as wear your own clothes day, film nights and organising activities for Children in Need Day.*



# Siarter Iaith
## *Language Charter*

Hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yw nod Swyddogion y Siarter Iaith. Maen nhw'n annog y defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r Ysgol wrth ddefnyddio apiau, gwrando ar gerddoriaeth a gwylio rhaglenni teledu. Dyma blant yr ysgol yn dathlu 'Diwrnod Su' mai'. Diwrnod i ddathlu, hyrwyddo a hybu'r Gymraeg.

*Encouraging the use of the Welsh language is the aim of the Language Charter officers. They encourage the use of Welsh outside School, by using Apps, listening to music and watching television pro-grammes. Here are the children celebrating 'Su'mae' Day. A day to celebrate, encourage and promote the Welsh language.*

# Pwyllgor Eco
## *Eco Council*

Mae'r pwyllgor yn hybu bwyta'n iach, edrych ar ôl yr amgylchedd yr ysgol ac yn sicrhau fod pawb yn dilyn canllawiau'r Côd Eco (e.e. ailgylchu, diffodd golau, ac yn casglu sbwriel o amgylch yr ysgol).

*The Eco Council promotes healthy eating, looks after the school's environment and ensures that everyone follows the guidelines of the Eco Code (e.g. recycling, turning off lights, and collecting litter around the school).*



# Llysgenhadon Chwaraeon
## *Sports Ambassadors*

Mae'r Llysgenhadon yn annog byw yn iach trwy fwyta'n gytbwys, ymarfer corff, ymuno â chlybiau ar ôl ysgol a hybu cyd ddisgyblion i roi cynnig ar chwaraeon newydd.

*The Ambassadors encourage living healthily through eating a balance diet, physical activity, joining after school clubs and encourage their fellow pupils to try new sports.*









# Ardal Tu Allan
## *Outdoor Area*

Mae'n gardd yn ardal amgylcheddol braf – yn le i'r plant ymlacio amser chwarae yn ogystal â bod yn le addas i gael gwersi ynddo. Mae'n le gwych i gael gwersi Gwyddoniaeth ac fe gawn ambell i stori yn y pergola. Mae'r Ardal Gloddio yn denu'r plant i chwarae'n greadigol iawn. Yn y Gwanwyn, mae gynon ni lefydd addas i blannu blodau ym mlaen yr ysgol er mwyn gwneud y lle'n fwy deniadol. Yn ein gardd gan fod angen dyfrhau'r planhigion, mae gennym dwbiau dŵr i ddal y dŵr glaw sy'n disgyn o do'r garej.

Mae gan plant y Cyfnod Sylfaen ddosbarth tu allan, sy'n addas i'w ddefnyddio ymhob tywydd, ble byddent yn gallu dysgu a chwarae tybiau tywod a dŵr.

*Our garden is an environmentally friendly area – where children can relax at playtime and a place where lessons can be held. It's an excellent setting for our Science lessons and the pergola can be used for storytelling. The Digging Area offers the children an opportunity to play creatively.  In the Spring, there are suitable places to plant flowers in front of the school in order to make the place more attractive. In our garden as the plants need to be watered, we have water tubs to catch the rainwater that falls from the garage roof.*

*Children in the Foundation Phase have an outside classroom, which is suitable for use in all weathers, where they are able to learn and play in sand and water tubs.*
















# Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
# *Relationships and Sexuality Education*

Mae pwnc Addysg Rhyw yn cael ei addysgu gyda sensitifrwydd. Nid yw'n bwnc ar wahân ond wedi'i integreiddio i'r ddarpariaeth addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd. Mae'n galw am fod yn agored yn yr ystafell ddosbarth ac atebion gonest i gwestiynau wrth iddynt godi o wersi unigol yn hytrach na gwersi unigol sy'n cael eu neilltuo i'r pwnc gyda'r dosbarth cyfan. Dylai pwysigrwydd bywyd teuluol a pherthnasau cariadus a gofalgar yn y cyddestun hwnnw fod yn nodwedd ganolog o'r agwedd hon ar y Cwricwlwm. Os oes unrhyw riant yn pryderu am yr agwedd hon ar y cwricwlwm, yna mae croeso i chi ei drafod gyda'r Pennaeth.

*The subject of Sex Education is taught with sensitivity. It is not a discrete subject but integrated into the personal, social and health education provision. It calls for openness in the classroom and honest replies to questions as they arise from individual rather than isolated lessons devoted to the subject with the whole class. The importance of a family life and loving and caring relationships within that context should be a central feature of this aspect of the Curriculum. If any parent is concerned about this aspect of the curriculum then please feel free to discuss it with the Headteacher.*







# Ysgol Uwchradd
# *Secondary School*

Ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r disgyblion yn mynd i Ysgol Uwchradd Glan Clwyd. Mae cyswllt gref rhwng Ysgol Glan Clwyd â ni. Trefnir gweithgareddau trosglwyddo a bydd aelod o staff o'r ysgol uwchradd yn ymweld â'r disgyblion ar ddiwedd tymor yr Haf.

Ceir nosweithiau agored ar ddechrau tymor yr Hydref yn Ysgolion Uwchradd yr ardal i roi cyfle i'r disgyblion a'u rhieni ymweld â'r ysgolion. Hefyd, caiff y disgyblion dreulio diwrnod yn yr ysgol uwchradd yn nhymor yr Haf er mwyn cael blas ar fywyd Ysgol Uwchradd.

*At the end of their time in the school, the pupils go to Ysgol Glan Clwyd. There is a strong link between Glan Clwyd and us. Transitional activities are arranged and a member of staff from the high school comes to meet our pupils at the end of the Summer term.*

*There is an Open Evening in local High Schools at the start of the Autumn term to give pupils and their parents an opportunity to visit the school. Pupils can also spend a day in the High School during the Summer term to have a taste of life in a secondary school.*

# Anghenion Dysgu Ychwanegol - *Additional Learning Needs*

Nod yr ysgol ydi datblygu pob disgybl hyd at eithaf ei allu ac mae'r ddarpariaeth ar gael yn cynorthwyo'r disgyblion i wneud hynny. Yr ysgol sy'n gyfrifol am leoli'r plant ar y camau a nodir yng Nghod Ymarfer Anghenion Dysgu ychwanegol Cymru ac am fonitro, adolygu ac am ddyrannu adnoddau.

Y Pennaeth â'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol CADY (sef Manon Tudur) sy'n gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth briodol, gan gynnig cefnogaeth ac arweiniad i athrawon a rhieni o fewn yr ysgol. Mae aelod o'r Corff Llywodraethol hefyd wedi'i dewis i fonitro'r ddarpariaeth.

*The aim of the school is to develop every pupil to the best of his/her ability and provision is in place to enable pupils to do this. It is the school's responsibility to place children in the stages described in the Welsh Additional Learnin Needs Code of Practice', and to monitor, review and allocate resources.*

*The Headteacher with the Additional Learning Needs Co-ordinator of ALN (Manon Tudur) is in charge of the appropriate interventions as well as providing support and guidance to teachers and parents within the school. A member of the Governing Body has also been chosen to monitor the provision.*







# Cyfle Cyfartal *Equal Opportunities*

Yn Ysgol Pant Pastynog, caiff pob plentyn ei werthfawrogi waeth beth fo'i hil na'i ryw – rhown yr un chwarae teg i bawb. Ategir hyn yn y Polisi Cyfle Cyfartal a gadarnhawyd gan y Corff Llywodraethol.

Mae'r plant yn gweithio mewn grwpiau cymysg a chaiff pob plentyn y cyfle i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol. Ceisiwn sicrhau nad yw themâu a gyflwynir yn yr ysgol yn portreadu rôl-stereo nac yn ffafrio un plentyn ar draul y llall.

*In Ysgol Pant Pastynog, every child is valued – whatever his/her race or sex - we treat every child fairly. This is rein-forced in the Equal Opportunity Policy which has been accepted by the Governing Body.*

*Children work in mixed groups and every child has the opportunity to take part in school activities. We strive to ensure that no themes used in school portray stereotypical roles or favour one child over the other.*

# Darpariaeth ar gyfer plant ag anableddau *Provision with pupils with disabilities*

Addaswyd yr ysgol fel bod mynediad addas parhaol ar gyfer pob ymwelydd â'r ysgol. Rydym am sicrhau na fydd plentyn anabl, waeth beth fo'i anabledd, yn cael ei drin yn llai ffafriol na phlant eraill.

*The school has been altered so that there is permanent suitable access to the school for everyone. We aim to make sure that no disabled child, whatever his/her disability, will be dealt with less respect than any other child.*


# Cynnydd ac Asesu

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn nodi ein bod yn asesu am dri rheswm allweddol sef:

- cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, o ddydd i ddydd,
- nodi, cipio a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser,
- deall cynnydd grŵp er mwyn myfyrio ar arfer.

Mae asesu yn rhan allweddol i gefnogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar hyd yr un continwwm ar gyflymder priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio i gyrraedd eu potensial.  Mae asesu yn ymwneud ag asesu cynnydd dysgwyr yn barhaus - peidio â llunio barn un tro ar adegau penodol mewn pryd. Mae angen asesu i adlewyrchu y gall dilyniant dysgwyr fod yn amrywiol gyda chryfderau gwahanol ac mae angen iddo wella felly nid yw'n gwneud synnwyr categoreiddio dysgwyr i lefel 'ffit orau' benodol.  Rydym yn defnyddio'r Disgrifiadau Dysgu ar gyfer bob Datganiad o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer asesu a chynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr. Mae'r rhain yn fras i ddisgwyliadau ar gyfer oedrannau 5, 8, 11, 14 ac 16 oed, ac yn cynnig arweiniad ar sut y dylai dysgwyr ddangos cynnydd o fewn pob datganiad.

Yn Ysgol Pant Pastynog rydym yn defnyddio amrywiol strategaethau asesu fel diben cyffredinol i gefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd. Yn ogystal â hyn, mae asesu yn llywio'r camau nesaf o ran dysgu ac addysgu. Mae ein hasesiadau'n cefnogi cynnydd dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd; yn nodi, cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser; ac yn deall cynnydd grwpiau er mwyn adlewyrchu ar ein hymarfer. Rydym hefyd yn asesu ac yn monitro lles pob dysgwr (PASS). Defnyddir yr asesiadau hyn i lunio ciplun manwl sy'n darparu targedau cyrhaeddiad, cynnydd a lles.





# *Cynnydd ac Asesu*

*The Curriculum for Wales guidelines state that we assess for three key reasons which are:*

- *support individual learners continuously, day to day,*
- *note, capture and reflect on the progress of individual learners over time,*
- *understand group progress in order to reflect on practice.*

*Assessment is a key part of supporting each individual learner to progress along the same continuum at an appropriate pace, ensuring that they are supported and challenged to reach their potential.  Assessment is about assessing learners' progress on an ongoing basis - not making a one-off judgment at specific points in time. Assessment needs to reflect that learner progression can be varied with different strengths and needs to improve so it does not make sense to categorize learners into a specific 'best fit' level.  We use the Learning Descriptions for each Statement of what matters for assessment and planning for learner progress. These roughly correspond to expectations for ages 5, 8, 11, 14 and 16, and offer guidance on how learners should demonstrate progress within each statement.*

*At Ysgol Pant Pastynog we use various assessment strategies as a general purpose to support all learners to make progress. In addition to this, assessment informs the next steps in terms of learning and teaching. Our assessments continuously support the progress of individual learners on a day-to-day basis; notes, records and reflects on the progress of individual learners over time; and understand the progress of groups in order to reflect on our practice. We also assess and monitor the wellbeing of all learners (PASS). These assessments are used to draw up a detailed snapshot that provides attainment, progress and well-being targets.*



**Ysgol Pant Pastynog**
Prion
Dinbych
LL16 4SA

Rhif ffôn / *Telephone*
**01745 890331**

Ebost / *Email*
**ysgol.pantpastynog@sirddinbych.gov.uk**

Gwefan / *Website*
**www.ysgolpantpastynog.cymru**

Pennaeth / *Head teacher*
**Mr Meirion Edwards**

Cadeirydd y Llywodraethwyr / *Chair of Governors*
**Mrs Meryl Pierce**

Ymwelydd yr Esgob / *Bishop's Visitor*
**Mr Neil Roberts**

Awdurdod Addysg Sir Ddinbych
*Denbighshire Local Education Authority*
Adran Addysg Sir Ddinbych
Swyddfeydd y Cyngor
Ffordd Wynnstay,
Rhuthun, LL15 5YN

Welsh Network of Healthy School Schemes
Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru
Eco-Schools
Eco-Sgolion
The Basic Skills Agency
Quality Mark
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE